**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod Y Cyngor

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Siambr y Cyngor, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Iau, 6 Hydref 2022 am 5.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd J P Curtice (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) |
|---|---|---|
| C Anderson | P R Hood-Williams | J D McGettrick |
| M Bailey | B Hopkins | A J O'Connor |
| S Bennett | D H Hopkins | D Phillips |
| P N Bentu | O G James | C L Philpott |
| P M Black | L James | J E Pritchard |
| A Davis | Y V Jardine | S Pritchard |
| P Downing | A J Jeffery | A Pugh |
| C R Doyle | D H Jenkins | S J Rice |
| M Durke | M Jones | K M Roberts |
| V M Evans | S M Jones | B J Rowlands |
| E W Fitzgerald | L R Jones | R V Smith |
| R Fogarty | J W Jones | A H Stevens |
| R Francis-Davies | S Joy | R C Stewart |
| N Furlong | S E Keeton | L G Thomas |
| L S Gibbard | H Lawson | W G Thomas |
| F M Gordon | M B Lewis | M S Tribe |
| K M Griffiths | W G Lewis | G D Walker |
| H J Gwilliam | A S Lewis | L V Walton |
| J A Hale | P Lloyd | T M White |
| V A Holland | M W Locke | R A Williams |
| C A Holley | N L Matthews | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Gareth Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| David Howes | Prif Swyddog y Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Tracey Meredith | Prif Swyddog Cyfreithiol |
| Martin Nicholls | Prif Weithredwr Dros Dro |
| Ben Smith | Cyfarwyddwr Cyllid / Swyddog Adran 151 |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Y Cynghorydd(wyr): A M Day, C R Evans, T J Hennegan, M H Jones, E J King, E T Kirchner, R D Lewis, P N May a/ac F D O'Brien

## 48. Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Rhoddodd y Prif Swyddog Cyfreithiol gyngor ynghylch y cysylltiadau personol a rhagfarnol posib y gallai fod gan gynghorwyr a swyddogion ag eitemau ar yr agenda.

Atgoffodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd gynghorwyr a swyddogion y dylid llenwi'r daflen "Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol" dim ond os oes gan y cynghorydd/swyddog fudd i'w ddatgan. Nid oes angen dychwelyd ffurflenni os nad oes unrhyw beth i'w ddatgan. Hysbyswyd cynghorwyr a swyddogion hefyd y dylid datgan unrhyw fudd ar lafar ac yn ysgrifenedig ar y daflen.

Yn unol â darpariaethau'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y cysylltiadau canlynol:

1) Datganodd y Cynghorydd D H Jenkins gysylltiad personol â Chofnod 61 "Recriwtio Cynghorydd Cymuned/Tref i'r Pwyllgor Safonau".

2) Datganodd y Cynghorwyr J P Curtice, N L Matthews, K M Roberts ac A H Stevens gysylltiad personol a rhagfarnol â Chofnod 61 "Recriwtio Cynghorydd Cymuned/Tref i'r Pwyllgor Safonau" a gadawodd y cyfarfod cyn i'r eitem gael ei hystyried.

3) Datganodd y Cynghorydd C A Holley gysylltiad personol a rhagfarnol â Chofnod 63 "Cwestiynau Cynghorwyr – Cwestiwn 3" a gadawodd y cyfarfod cyn i'r eitem gael ei hystyried.

4) Datganodd y Cynghorydd A Pugh gysylltiad personol â Chofnod 64, sef "Hysbysiad o Gynnig - Cymru Ddi-niwclear".

## 49. Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r cofnodion canlynol a'u llofnodi fel cofnod cywir:

1) Cyfarfod Cyffredin y Cyngor a gynhaliwyd ar 1 Medi 2022 yn amodol ar ddangos bod y Cynghorwyr C Anderson a P M Black yn bresennol ynddo.

## 50. Ymatebion ysgrifenedig i gwestiynau a ofynnwyd yng Nghyfarfod Cyffredinol Diwethaf y Cyngor.

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyfreithiol adroddiad gwybodaeth a oedd yn nodi'r ymatebion ysgrifenedig i gwestiynau a ofynnwyd yn y cyfarfod cyffredin diwethaf o'r cyngor.

## 51. Cyhoeddiadau'r Aelod Llywyddol.

### a) Menter Masnacheiddio ac Entrepreneuriaeth Orau yng Ngwobrau Gwasanaeth Blynyddol y Gymdeithas Rhagoriaeth mewn Gwasanaeth Cyhoeddus (APSE) 2022

Llongyfarchodd yr Aelod Llywyddol y cyngor am ennill y Fenter Masnacheiddio ac Entrepreneuriaeth Orau yng Ngwobrau APSE 2022 gyda'r fenter "Marchnad Abertawe: Yn greiddiol i ganol y ddinas a'r economi leol'.

## 52. Cyhoeddiadau Arweinydd y Cyngor.

### a) Gêm Ail Gyfle Cwpan y Byd Merched Cymru 2022

Dywedodd Arweinydd y Cyngor fod Tîm Pêl-droed Merched Cymru 90 munud i ffwrdd yn unig o gyrraedd rownd derfynol gêm ail gyfle Cwpan y Byd. Byddent yn croesawu Bosnia-Herzegovina yn rownd gynderfynol y gemau ail gyfle yng Nghaerdydd y noson honno. Roedd yn dymuno pob llwyddiant iddynt ar ran y cyngor.

### b) Addasiad Cyllidol/Cyllideb Fach

Cyfeiriodd Arweinydd y Cyngor at yr Addasiad Cyllidol/y Gyllideb Fach ddiweddar gan ddweud ei fod wedi effeithio'n sylweddol ar werth y Bunt (£) yn erbyn Doler yr UD ($). Mae hyn yn ei dro wedi cynyddu'r pwysau ar fil ynni'r cyngor.

Galwodd ar y rheini â dylanwad i lobïo Llywodraeth y DU i ymestyn y cap Ynni tu hwnt i 1 Mawrth 2023.

### c) Ailgychwyn Calon

Dywedodd Arweinydd y Cyngor fod Diwrnod Ailgychwyn Calon yn cynyddu ymwybyddiaeth o ataliad y galon ac yn helpu pobl i ddysgu sut i adfywio'r galon a'r ysgyfaint (CPR), gan roi sgiliau achub bywyd a'r hyder iddyn nhw eu defnyddio. Bydd y diwrnod Ailgychwyn Calon nesaf yn digwydd ar 16 Hydref 2022.

Mae tua 30,000 o ataliadau'r galon y tu allan i'r ysbyty yn digwydd bob blwyddyn ym Mhrydain. Yn anffodus, mae llai nag 1 o bob 10 o bobl yn goroesi'r ataliadau y galon hyn. Gall perfformio CPR fwy na dyblu'r siawns o oroesi mewn rhai achosion.

Fel y nodwyd eisoes, rydym yn awyddus i sicrhau mai Abertawe yw’r ddinas gyntaf yn y DU i groesawu diffibrilwyr ac fel rhan o'r daith honno a'i chysylltu ag Ailgychwyn Calon, rwyf wedi trefnu hyfforddiant CPR a defnyddio diffibrilwyr i'w ddarparu gan Heartbeat Trust UK, yn rhad ac am ddim i'r holl Gynghorwyr. Bydd hyfforddiant yn cymryd oddeutu awr a bydd y Tîm Gwasanaethau Democrataidd yn anfon y dyddiadau'n fuan.

## 53. Cwestiynau gan y Cyhoedd.

Gofynnodd Mary Jones o CND Abertawe/CND Cymru gwestiwn mewn perthynas â Chofnod 64 "Hysbysiad o Gynnig – Cymru Ddi-niwclear".

Ymatebodd y Cynghorydd L S Gibbard.

**54. Gwasanaeth Tân Ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru -Cyflwyniad gan y Prif Swyddog Tânr.**

Cafodd yr eitem ei thynnu'n ôl ar gais y Prif Swyddog Tân.

**55. Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraeth ac Archwilio 2021/22.**

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 2021-2022 er gwybodaeth.

**56. Adrodiad Blynnyddol 2021/22 - Prif Swyddog y Gwasanaethau Cymdeithasol.**

Cyflwynodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol adroddiad a oedd yn darparu ei hanes ef o daith wella'r cyngor i 2021-2022, a pha mor dda y mae'r cyngor yn bodloni'i ofynion statudol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Roedd yr adroddiad yn adolygu meysydd i'w gwella'r llynedd ac yn nodi blaenoriaethau newydd ar gyfer 2017-2018. Roedd yr adroddiad yn nodi'r newidiadau sydd wedi digwydd o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol i gyflawni cynnydd tuag at ganlyniadau lles cenedlaethol.

**Penderfynwyd:**

1) Derbyn Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2021/2022.

**57. Adolygu'r refeniw wrth gefn.**

Cyflwynodd Swyddog Adran 151 adroddiad a oedd yn amlinellu adolygiad canol blwyddyn o sefyllfa'r Refeniw Wrth Gefn ac yn ceisio cytundeb ar unrhyw ailddosbarthiad o gronfeydd wrth gefn yn seiliedig ar ofynion presennol.

**Penderfynwyd:**

2) Cymeradwyo'r argymhellion a wnaed ym Mharagraffau 3.10 a 3.10 o'r adroddiad.

**58. Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad Ranbarthol Gorllewin Morgannwg.**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros y  Gwasanaethau Gofal adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad Ranbarthol, sy'n offeryn i gynorthwyo'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i gynllunio a chomisiynu gofal a chefnogaeth o ansawdd ar gyfer ei boblogaethau.

**Penderfynwyd:**

3) Nodi'r ffaith bod y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi cymeradwyo'r yr adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad Ranbarthol ar 7 Gorffennaf 2022.

4) Cymeradwyo'r adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad ranbarthol a atodwyd yn Atodiad A yr adroddiad

**Sylwer:** Cyfeiriodd y Cynghorydd S J Rice at Dudalen 212 o'r adroddiad, yn benodol 7.9 "Gofal Cartref - Oedolion Hŷn" gan fynegi'i syndod bod nifer yr oriau a gomisiynwyd wedi gostwng 37% yn Abertawe. Gofynnodd am esboniad."

Dywedodd Aelod y Cabinet dros y Gwasanaethau Gofal y byddai ymateb ysgrifenedig yn cael ei ddarparu.

## 59. Polisi Lwfansau TGCh Cynghorwyr - Mai 2022 a thu hwnt.

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Phennaeth y Gwasanaethau Digidol a Chwsmeriaid adroddiad ar y cyd a oedd yn ceisio diwygio Polisi Lwfansau TGCh y Cynghorwyr i gyd-fynd yn well â'r taliadau TGCh i'r Aelodau Cyfetholedig Statudol er mwyn eu galluogi i gyflawni'u dyletswyddau. Roedd yr adroddiad yn cynnig talu 50% o'r hyn y mae Cynghorydd yn ei dderbyn mewn perthynas â'r taliad TGCh i'r Aelodau Cyfetholedig Statudol. Bydd y Lwfans Data a Ffôn yn aros heb ei newid ar 20%.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo'r diwygiadau i Baragraffau 3.2 a 4.3 a'r newidiadau canlyniadol i Baragraff 6.8 ac Atodiad 1 i Bolisi Lwfansau TGCh y Cynghorwyr - Mai 2022 a Thu Hwnt ynghyd ag unrhyw newidiadau canlyniadol eraill.

2) Cyhoeddi'r fersiwn ddiwygiedig ar wefan y cyngor a'i rhannu â'r holl Gynghorwyr a'r Aelodau Cyfetholedig Statudol.

## 60. Election of Chair Pro-Tem

Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd y byddai angen ethol Cadeirydd Dros Dro ar gyfer yr eitem hon yn absenoldeb yr Aelod Llywyddol a'r Dirprwy Aelod Llywyddol.

**Penderfynwyd** ethol y Cynghorydd P Lloyd yn Gadeirydd Dros Dro.

**Y Cynghorydd P Lloyd yn Llywyddu**

## 61. Recriwtio Cynghorydd Cymuned / Tref i'r Pwyllgor Safonau.

Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd fod y Pwyllgor Safonau wedi cyfarfod ar 5 Hydref 2022 ac wedi cyfweld â'r ymgeisydd i fod yn gynrychiolydd y Cynghorydd Cymuned/Tref ar y Pwyllgor Safonau. Roedd y Pwyllgor wedi argymell y dylai'r cyngor benodi'r ymgeisydd.

**Penderfynwyd:**

3) Penodi'r Cynghorydd Tref, Carlo Rabaiotti o Gyngor Tref Gorseinon, yn gynrychiolydd Cynghorydd Cymuned/Tref y Pwyllgor Safonau.

4) Daw ei gyfnod yn y swydd i ben yn yr Etholiadau Llywodraeth Leol yn 2027; fodd bynnag, gall y cyngor ei ailbenodi ar gyfer un tymor arall yn y swydd.

**Y Cynghorydd J P Curtice (Aelod Llywyddol a fu'n llywyddu)**

## 62. Aelodaeth Pwyllgorau.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyo'r enwebiadau/diwygiadau i wahanol Gyrff y Cyngor.

Roedd yr adroddiad hefyd yn rhestri newid i'r Cyrff a wnaed gan Arweinydd y Cyngor.

**Comisiwn Gwirionedd Tlodi**
Ychwanegu'r Cynghorwyr A S Lewis ac A Pugh.

**Penderfynwyd** diwygio aelodaeth cyrff y cyngor a restrir isod fel a ganlyn:

1) **Pwyllgor Datblygu Corfforaethol Newid yn yr Hinsawdd**
Tynnu enw'r Cynghorydd E T Kirchner.
Ychwanegu'r Cynghorydd H Lawson.

2) **Bwrdd Magu Plant Corfforaethol**
Tynnu enw'r Cynghorydd E J King.
Ychwanegu'r Cynghorydd H J Gwilliam.

3) **Pwyllgorau Trwyddedu Statudol/Cyffredinol ac Is-Bwyllgorau**
Tynnu enw'r Cynghorydd S Bennett.
Ychwanegu'r Cynghorydd M W Locke.

## 63. Cwestiynau gan y Cynghorwyr.

1) **'Cwestiynau Atodol' Rhan A**

Cyflwynwyd wyth (8) 'Cwestiwn Atodol' Rhan A. Ymatebodd Aelod(au) perthnasol y Cabinet ar ffurf atebion ysgrifenedig a gynhwyswyd yng Ngwŷs y Cyngor.

Dangosir y cwestiynau atodol hynny yr oedd angen ymateb ysgrifenedig arnynt isod.

**Cwestiwn 7**

Gofynnodd y Cynghorydd E W Fitzgerald am leoliadau'r 12 cynllun peilot lle'r oedd paneli solar yn mynd i gael eu gosod a chost ddangosol ar gyfer pob cynllun.

Dywedodd Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Gwasanaethau y byddai ymateb ysgrifenedig yn cael ei ddarparu.

**Cwestiwn 8**

Dywedodd y Cynghorydd C A Holley nad oedd y rhestr o'r holl safleoedd ac adeiladau a drosglwyddwyd drwy ddulliau rheoli asedau i grwpiau cymunedol wedi cael ei chylchredeg.

Dywedodd Aelod y Cabinet dros y Gwasanaethau Plant y byddai ymateb ysgrifenedig yn cael ei ddarparu.

**2) ‘Cwestiynau nad oes angen Cwestiynau Atodol ar eu cyfer' Rhan B**

Cyflwynwyd dau (2) 'gwestiwn nad oedd angen cwestiynau atodol ar eu cyfer' Rhan B ar eu cyfer.

## 64. Rhybudd o Gynnig - Cymru Ddi-Niwclear

Cynigiwyd gan y Cynghorydd L S Gibbard a'i eilio gan y Cynghorydd R C Stewart.

*"Mae Cyngor Abertawe yn nodi bod 2022 yn nodi 40 mlynedd ers i Gymru gael ei datgan yn 'ddi-niwclear' pan basiwyd penderfyniadau gan yr holl Gynghorau Sir ar y pryd, gan gynnwys Gorllewin Morgannwg, yn datgan eu hunain yn "barthau di-niwclear".*

*Mae Cyngor Abertawe yn datgan ei gefnogaeth i Gytundeb y Cenhedloedd Unedig ar Wahardd Arfau Niwclear (TPNW), cytundeb hanesyddol sy'n gwahardd ei lofnodwyr rhag datblygu, profi, a defnyddio arfau niwclear.*

*Mae Cyngor Abertawe yn cydnabod rheidrwydd creu byd heb arfau niwclear ac o'r herwydd mae'n beirniadu gwrthodiad llywodraeth y Deyrnas Unedig i arwyddo neu gadarnhau'r cytundeb nodedig hwn.*

*Mae Cyngor Abertawe yn galw ar lywodraeth y Deyrnas Unedig i weithio ar gyfer cael gwared ar arfau niwclear ar draws y byd drwy:*

- *Arwyddo a chadarnhau'r TPNW, a thrwy hynny ymuno â'r mwyafrif byd-eang o wledydd sy'n gwrthwynebu arfau niwclear, a*
- *Defnyddio pob llwybr diplomyddol posib i weithio tuag at fyd di-niwclear."*

Cynigiodd y Cynghorydd C A Holley ddiwygiad i'r Hysbysiad o Gynnig. Mae'r diwygiad i newid y teitl i gynnwys y gair "arfau" yn benodol. "Hysbysiad o Gynnig - Cymru Heb Arfau Niwclear" fyddai'r teitl felly.

Nododd y Cynghorydd L S Gibbard ei bod yn cefnogi'r diwygiad Yr Hysbysiad o Gynnig Diwygiedig bellach yw:

*"Hysbysiad o Gynnig – Cymru Heb Arfau Niwclear.*

*"Mae Cyngor Abertawe yn nodi bod 2022 yn nodi 40 mlynedd ers i Gymru gael ei datgan yn 'ddi-niwclear' pan basiwyd penderfyniadau gan yr holl Gynghorau Sir ar y*

*pryd, gan gynnwys Gorllewin Morgannwg, yn datgan eu hunain yn "barthau di-niwclear".*

*Mae Cyngor Abertawe yn datgan ei gefnogaeth i Gytundeb y Cenhedloedd Unedig ar Wahardd Arfau Niwclear (TPNW), cytundeb hanesyddol sy'n gwahardd ei lofnodwyr rhag datblygu, profi, a defnyddio arfau niwclear.*

*Mae Cyngor Abertawe yn cydnabod rheidrwydd creu byd heb arfau niwclear ac o'r herwydd mae'n beirniadu gwrthodiad llywodraeth y Deyrnas Unedig i arwyddo neu gadarnhau'r cytundeb nodedig hwn.*

*Mae Cyngor Abertawe yn galw ar lywodraeth y Deyrnas Unedig i weithio dros gael gwared ar arfau niwclear ar draws y byd drwy:*

- *Arwyddo a chadarnhau'r TPNW, a thrwy hynny ymuno â'r mwyafrif byd-eang o wledydd sy'n gwrthwynebu arfau niwclear, a*
- *Defnyddio pob llwybr diplomyddol posib i weithio tuag at fyd di-niwclear."*

Yn unol â Rheol 30 Gweithdrefn y Cyngor sef "Pleidlais", gofynnwyd am bleidlais gofnodedig. Cofnodwyd y bleidlais ar y newid fel a ganlyn:

| **O blaid (56 o gynghorwyr)** | | |
|---|---|---|
| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
| C Anderson | J A Hale | P Lloyd |
| M Bailey | V A Holland | M W Locke |
| S Bennett | C A Holley | N L Matthews |
| P N Bentu | B Hopkins | J D McGettrick |
| P M Black | D H Hopkins | C L Philpott |
| J P Curtice | L James | J E Pritchard |
| A Davis | O G James | S Pritchard |
| P Downing | Y V Jardine | A Pugh |
| C R Doyle | A J Jeffery | S J Rice |
| M Durke | D H Jenkins | K M Roberts |
| V M Evans | J W Jones | R V Smith |
| E W Fitzgerald | M Jones | A H Stevens |
| R A Fogarty | S M Jones | R C Stewart |
| R Francis-Davies | S A Joy | L G Thomas |
| N Furlong | S E Keeton | G D Walker |
| L S Gibbard | H Lawson | L V Walton |
| F M Gordon | A S Lewis | T M White |
| K M Griffiths | M B Lewis | R Andrew Williams |
| H J Gwilliam | W G Lewis | - |

| **Yn erbyn (4 Cynghorydd)** | | |
|---|---|---|
| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
| L R Jones | B J Rowlands | W G Thomas |
| A J O’Connor | - | - |

| **Ymwrthod (0 cynghorydd)** |
|---|

| Y Cynghorwyr | Y Cynghorwyr | Y Cynghorwyr |
|---|---|---|
| - | - | - |

| Wedi gadael y cyfarfod oherwydd datganiad o fudd (0 cynghorydd) | | |
|---|---|---|
| **Cynghorydd** | **Cynghorydd** | **Cynghorydd** |
| - | - | - |

**Penderfynwyd** mabwysiadu'r Hysbysiad o Gynnig a amlinellir uchod.

**Sylwer:** Ni wnaeth y Cynghorydd D Phillips bleidleisio gan nad oedd wedi bod yn bresennol ar gyfer yr holl drafodaeth.

Daeth y cyfarfod I ben am 7.00 pm

**Cadeirydd**